

# Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

## Cymhwysiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Rhan 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gymwys ar gyfer awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru sy'n ymarfer ei swyddogaeth dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yng nghyswllt Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Yn benodol, mae adran 2(2) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi bod rhaid ymarfer y swyddogaeth fel rhan o ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys darpariaethau ynghylch diffiniad o ddatblygu cynaliadwy (adran 2).

Daeth Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2016 ag amrywiol adrannau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar amrywiol ddyddiadau. Noda Adran 3 o Orchymyn Cychwyn:

*"1 Ebrill 2016 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym -*

*Adrannau 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, ..."*

Effaith Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 yw y bydd Adrannau 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, ... yn berthnasol o 1 Ebrill 2016 ymlaen.

Goblygiadau hyn yw y dylai pob CDLI sy'n cael ei baratoi ac sy'n dal i fod yn destun mabwysiadu neu gymeradwyaeth, ystyried y darpariaethau uchod a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddai hyn yn cynnwys diffiniad o ddatblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant.

Fodd bynnag, mae Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015, adran 6 yn benodol, yn nodi:

*"Nid yw adrannau 2 ac 11(3) o Ddeddf 2015 (Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) yn gymwys i gynllun datblygu lleol sydd wedi ei gyflwyno i'w archwilio yn unol â Rhan 6 o Ddeddf 2004 pan ddaw'r adrannau i rym. Mae'r adrannau'n gymwys i gynllun o'r fath ar ôl iddo gael ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo yn unol â Rhan 6 o Ddeddf 2004."*

Oblygiadau'r darpariaethau trosiannol ac arbed hyn yw nad yw adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gymwys i'r CDLlau hynny sydd wedi'u cyflwyno i'w harchwilio ar yr adeg pan ddaeth adran 2 o'r Ddeddf i rym, h.y. 1 Ebrill 2016. Felly, ni fyddai'r CDLlau hynny yn amodol ar ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Felly, mae'n dilyn na all cyflawni'r nodau llesiant fod yn gymwys i GDLlau a gyflwynwyd i'w harchwilio cyn 1 Ebrill 2016 oherwydd bod y nodau wedi'u cysylltu'n gynhenid ag ymgymryd â datblygu cynaliadwy dan adran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid yw'r holl isadrannau eraill dan adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gymwys, ychwaith.

Mae'r safbwynt hwn yn berthnasol i'r CDLlau isod sydd wedi'u cyflwyno i'w harchwilio:

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn

CDLI Powys

CDLI Bro Morgannwg

Mark Newey  
Pennaeth y Gangen Gynlluniau  
Llywodraeth Cymru  
17/11/16